

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4803>

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Mehefin 2018

Amser: 08.50 – 12.46

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Michelle Brown AC Hefin David AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC Mark Reckless AC
Tystion:	Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Carla Lyne, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol , Llywodraeth Cymru Steve Vincent, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Gareth Rogers (Ail Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

	Joe Champion (Ymchwilydd)
	Michael Dauncey (Ymchwilydd)
	Sian Thomas (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau; ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet.

2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu'r canlynol:

- Nodyn ar yr achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer yr elfen Refeniw gwerth £16 miliwn o'r cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd.
- Nodyn ar y dadansoddiad o'r dyraniad o elfen Gyfalaf y cyllid.
- Nodyn ar delerau ac amodau elfennau Refeniw a Chyfalaf y cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod.
- Ffigurau ar faint o ddosbarthiadau babanod sydd â mwy na 25 o ddisgyblion ar hyn o bryd a faint a fydd ar ôl cyfnod y cyllid ymrwymedig.
- Nodyn ar faint o ddisgyblion fydd yn elwa ar fod mewn dosbarth llai o ganlyniad i'r cyllid.
- I ddiweddarau'r Pwyllgor ar y dogfennau diweddaraf sydd ar gael ar gynnwys y cwricwlwm wrth iddo ddod i'r amlwg.
- I ddarparu copiau o'r asesiadau effaith a wnaed ynglŷn â phenderfyniadau i newid y ffordd y caiff cefnogaeth i blant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei chyllido.
- Nodyn ar sefyllfa'r gwasanaethau addysg teithwyr ledled Cymru.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru
- Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru
- Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Cwlwm yn dilyn y cyfarfod ar 24 Mai
- Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Estyn yn dilyn y cyfarfod ar 6 Mehefin
- Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg – y cynnig gofal plant
- Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'
- Llythyr oddi wrth grŵp derbyniadau hyblyg i ysgolion Cymru – Polisi Derbyniadau i Ysgolion
- Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – Dileuniad P-05-751 Cydnabod Achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant
- Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 4 Gorffennaf.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am ragor o wybodaeth am rai materion penodol.

6 Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) – Trafod y prif faterion

6.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

7 Darparu gwrslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion – ystyried yr adroddiad drafft

7.1 Nid oedd digon o amser i drafod yr eitem hon. Cytunodd yr Aelodau i'w rhoi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf.